Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Recordio Darlithoedd

## CYNNWYS


CYNNWYS ..... 1

1. Rhagarweiniad ..... 2
2. Diben ..... 2
3. Cwmpas ..... 2
4. Diffiniadau ..... 2
5. Defnyddio Recordiadau ..... 3
6. Lefel y Ddarpariaeth ..... 5
7. Hygyrchedd ..... 6
8. Cyfranogion a hawliau Prifysgol ..... 6
9. Hawlfraint trydydd parti ..... 7
10. Diogelwch a chadw recordiadau ..... 7
11. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill ..... 8

*Cymeradwyo* ..... 9


*(To update this page, right click over the table above and choose update field, update page numbers only. Delete this text prior to submission).*

## 1. Rhagarweiniad

Ceisia'r Brifysgol gyfoethogi profiad myfyrwyr trwy ddarparu recordiadau o ddarlithoedd i fyfyrwyr ddychwelyd atynt a'u hadolygu'n rhan o'u dysgu ar gyfer pob Modwl yn eu Rhaglen Astudio. Mae hyn yn alinio â nod y Strategaeth Dysgu ac Addysgu a'r Fframwaith Dysgu Digidol sef sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn cyrraedd eu potensial drwy ddarparu amgylchedd cefnogol a diwylliant dysgu cyfoethog.

Mae'r gwasanaeth recordio darlithoedd yn cyfoethogi ac ymestyn y ddarpariaeth i fyfyrwyr yn gyffredinol, ac i fyfyrwyr ag anableddau a chyflyrau penodol yn arbennig, ac mae'n ychwanegol o'r hawl a roddir i fyfyrwyr o fewn y polisi Dysgu Hygyrch a Chynhwysol i recordio sain darlithoedd (a gyda chaniatâd, fideo) ar gyfer eu dysgu personol eu hunain.

## 2. Diben

Nod y polisi hwn yw hwyluso recordio ymarferol a chyfrifol darlithoedd ac i ddarparu eglurder ar hawliau a chyfrifoldebau'r Brifysgol, ei staff a'i myfyrwyr, darlithwyr gwadd allanol ac unrhyw un arall sy'n cymryd rhan mewn addysgu sy'n cael ei addysgu.

Y diben hanfodol a gyfeirir ato yn y polisi hwn yw caniatáu i'r myfyrwyr sy'n ymgymryd â Modwl a addysgir i adolygu recordiadau darlithoedd a roddir yn rhan o'r modwl hwnnw. Hefyd, mae'r polisi'n caniatáu i ddarlithydd ail-ddefnyddio recordiadau o'u darlithoedd o fewn adnoddau addysgol neu ddatblygiad staff eu hunain. Dim ond os bydd y sawl a gyfrannodd at y recordiad yn cytuno â hynny y caiff dibenion perthnasol a phriodol eraill eu hystyried.

Bwriad y polisi yw cadw'r ddarlithfa'n fan diogel ar gyfer dangos a thrafod syniadau a all fod yn ddadleuol rhwng y darlithwyr a'r myfyrwyr ar fodwl. Bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw rannu anawdurdodedig a wnaiff myfyrwyr neu staff yn ddifrifol iawn.

## 3. Cwmpas

Mae'r polisi'n cwmpasu darlithoedd cydamserol a amserlennir a gyflwynir mewn ystafelloedd lle mae'r Brifysgol wedi mewnosod offer i ganiatáu recordio darlithoedd a darlithoedd cydamserol a amserlennir a gyflwynir ar-lein. Yn ogystal, mae'n hwyluso'r defnydd o'r gwasanaeth recordio darlithoedd at ddibenion eraill, yn cynnwys recordio seminarau, tiwtorialau neu ddarlithoedd cyhoeddus a darlithoedd a gaiff eu recordio ymlaen llaw i'w defnyddio mewn dull "ystafell ddosbarth wedi'i throsi" ('flipped classroom') neu ar gyfer dysgu o bell ar-lein.

## 4. Diffiniadau

Mae'r polisi yn tybio diffiniadau darlith, yn cwmpasu'r holl fathau o addysgu a darpariaeth academaidd a amserlennir; ond yn cydnabod y potensial ar gyfer anawsterau ymarferol o ran cynnal caniatâd lle bo llawer o bobl yn cael eu recordio o fewn y fformatau addysgu mwy rhyngweithiol.

Yn y polisi hwn, mae "cyfranogwr" yn cyfeirio at rywun sydd ag eiddo deallusol mewn unrhyw agwedd ar y recordiad, yn cynnwys y Brifysgol, y darlithydd ac unrhyw un arall sy'n cyfrannu at drafodaeth o fewn y ddarlith.

Gwneir recordiadau gan system awtomatig, ac nid oes bwriad i'r perfformiad fod o'r un safon ag actorion proffesiynol nag i'r safonau cynhyrchu fod yr un fath â thimau cynhyrchu proffesiynol. Mae'r Brifysgol yn awdurdodi'r defnydd o Microsoft Teams a Panopto ar gyfer

recordio darlithoedd, cyfeirir at y rhain yn y polisi fel "gwasanaeth recordio darlithoedd". Ni all staff ddefnyddio trwyddedau personol ar gyfer gwasanaethau eraill i recordio darlithoedd.

Fel eithriad, bydd y Brifysgol yn cymeradwyo'r defnydd o Zoom ar gyfer rhai darlithoedd o dan y meini prawf a ganlyn: rheolwyr yr adran/athrofa yn cymeradwyo cyfiawnhad perthnasol ac os felly, byddai angen ariannu trwyddedau gofynnol a cheisio cymeradwyaeth derfynol gan TaSG. Rhaid i holl ddefnydd Zoom y Brifysgol fod drwy gyfeiriad e-bost Prifysgol a rhaid ei sefydlu trwy gyfrif canolog Y Drindod a reolir gan TaSG. Ni chaniateir defnyddio trwydded Zoom nad yw'n perthyn i'r Drindod ar gyfer gweithgareddau prifysgol.

## 5. Defnyddio Recordiadau

5.1. Fel arfer, bydd y Brifysgol yn darparu recordiadau darlithoedd i fyfyrwyr ar gyrsiau a addysgir, lle bo'n bosibl, i gynorthwyo eu dysgu trwy adolygu ac adfyfyrio. Nid yw'r recordiadau hyn, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn, i gymryd lle mynychu darlithoedd.

5.2. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Recordio Darlithoedd yn amlinellu manylion am sut y bydd y Brifysgol yn defnyddio a rhannu data personol mewn perthynas â'r gwasanaeth recordio darlithoedd.

5.3. Ni fydd recordio data personol sensitif yn ôl diffiniad deddfwriaeth diogelu data cyfredol (yn cynnwys GDPR) yn digwydd heb gydsyniad ysgrifenedig penodol yr unigolyn/unigolion y mae'r data'n ymwneud â nhw.

5.4. Caniateir defnyddio recordiadau yn y ffyrdd a ganlyn o dan y polisi hwn:

5.4.1. Bydd y Brifysgol yn darparu recordiadau darlithoedd, lle bo rhai ar gael, i fyfyrwyr ar y modwl penodol y mae'r ddarlith yn perthyn. Yn ôl y rhagosodiad, fe fydd hefyd yn rhoi mynediad i'r holl staff sy'n gysylltiedig â'r Modwl yn yr Amgylchedd Ddysgu Rhithwir. Gall y darlithydd gyfyngu ymhellach ar fynediad staff at recordiad os bydd eisiau

5.4.2. Dim ond at ddibenion eu hastudiaethau personol eu hunain y caiff myfyriwr ddefnyddio'r recordiad. Rhaid i'r myfyriwr ddinistrio unrhyw gopi o'r recordiad sydd ganddynt unwaith y bydd y diben hwn wedi'i fodloni. Bydd hyn yn digwydd wrth gwblhau'r asesiad terfynol y mae'r modwl yn gysylltiedig ag ef neu pan fydd y Brifysgol yn gadael yr Ysgol, pa un bynnag sydd gyntaf.

5.4.3. Caiff darlithydd gyhoeddi recordiad o'u darlith fel adnodd addysgol agored, gydag addasiadau ac amddiffyniadau priodol, yn cynnwys priodoliad priodol, trwydded ac ar ôl cael unrhyw ganiatâd sydd ei hangen gan gyfranogion eraill neu drydydd parti y mae eu heiddo deallusol o fewn y recordiad.

5.4.4. Gall darlithydd ddefnyddio recordiadau o'u darlithoedd eu hunain o fewn eu hadolygiad perfformiad eu hunain; i hwyluso arsylwi cymheiriaid ar eu haddysgu; neu os ydynt yn cael eu hymchwilio oherwydd cyhuddiad o gamymddwyn difrifol o dan y Polisi Disgyblaeth.

5.4.5. Gall y Brifysgol ddefnyddio recordiad o ddarlith o fewn cwmpas ymchwiliad o dan y Polisi Perthnasol i Fyfyrwyr.

5.4.6. Gall Athrofa ddefnyddio recordiad a gedwir o fewn y gwasanaeth recordio darlithoedd o dan amgylchiadau eithriadol i ddarparu parhad, fel y rhestrir o fewn cynlluniau parhad busnes sy'n berthnasol i'r Athrofa.

5.4.6.1. Gall enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol gynnwys aflonyddwch sylweddol gan bandemig neu ddigwyddiad naturiol arall neu golli rhan o ystâd y Brifysgol yn annisgwyl.

5.4.7. Bydd yr Athrofa, lle bo'n bosibl, yn rhoi gwybod i'r darlithydd ymlaen llaw y bydd eu darlith yn cael ei defnyddio ac at ba ddiben, a bydd gan y darlithydd yr hawl i wrthod rhoi caniatâd at y defnydd hwn. Os bydd y darlithydd, gan weithredu'n rhesymol, yn gwrthod ei ddefnyddio at y diben hwn, ni chaniateir i'r Athrofa ddefnyddio'r recordiad.

5.5. Bydd unrhyw ddefnydd arall o recordiad yn gofyn am gydsyniad pellach, ar wahân rhwng y rheiny sydd â hawliau yn y recordiad. Yn benodol:

5.5.1. Ni chaiff y recordiadau nac unrhyw fetadata cysylltiedig ru defnyddio gan y Brifysgol ar gyfer adolygiad perfformiad staff neu brosesau disgyblaethol heb ganiatâd y darlithydd, ac eithrio yn achos camymddwyn difrifol honedig.

5.5.2. Ni chaiff recordiadau darlithoedd eu defnyddio yn lle presenoldeb staff bwriedig yn y ddarlithfa (er enghraifft, ffrydio darlithoedd yn fyw i ystafelloedd ychwanegol wrth gefn) oni bai bod y darlithydd yn caniatáu hyn.

5.5.3. Ni fydd recordiadau'n cael eu defnyddio i gwmpasu staff Prifysgol sy'n gweithredu eu hawl cyfreithiol i weithredu'n ddiwydiannol heb ganiatâd y darlithydd nac i gymryd lle aelod o staff sydd wedi'i ddiswyddo.

5.5.4. Fel arall dim ond gyda chaniatâd y Ddisgyblaeth sy'n berchen ar y Modwl a'r darlithydd ac unrhyw gyfranogion eraill yn y recordiad y caiff staff a myfyrwyr ddefnyddio, addasu, cyhoeddi neu rannu recordiadau neu ddarnau o recordiadau o ddarlithoedd sydd â mynediad cyfyngedig.

5.5.5. Bydd defnyddio, addasu neu ddosbarthu recordiadau heb ganiatâd yn drosedd disgyblu, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: copïo'r recordiad, cyhoeddi copïau ohono i'r cyhoedd, rhentu neu brydlesu copïau ohono i'r cyhoedd, ei chwarae'n gyhoeddus neu ei ddarlledu. Gellir ymchwilio i weithiwr neu fyfyriwr sy'n defnyddio, addasu neu ddosbarthu recordiad heb ganiatâd o dan y Polisi Disgyblu Staff neu Bolisi Camymddwyn Anacademaidd.

5.6. Nid yw recordiadau'n cymryd lle presenoldeb myfyriwr mewn darlithoedd oni bai bod y Brifysgol wedi nodi hyn yn addasiad rhesymol ar gyfer myfyriwr anabl.

5.7. Ni chaiff Athrofeydd na myfyrwyr ddefnyddio recordiadau o ddarlithoedd yn fecanwaith rheolaidd ar gyfer rheoli darlithoedd sy'n gwrthdaro ar yr amserlen.

5.8. Bydd y Brifysgol ac Athrofeydd yn darparu canllawiau i fyfyrwyr ar sut i elwa ar ddarlithoedd a sut i ddefnyddio recordiadau darlithoedd yn briodol.

## 6. Lefel y Ddarpariaeth

6.1. Nod y Brifysgol fydd darparu recordiad o bob darlith, lle bynnag y bo'n bosibl a phriodol, i gefnogi profiad myfyriwr cyson a chynhwysol. Bydd darlithwyr yn cofnodi eu darlithoedd gan ddefnyddio'r gwasanaeth recordio darlithoedd lle na ellir lle na ddylid recordio darlith fel y nodir yn 6.3 isod.

6.2. Bydd y darlithydd yn gyfrifol am wneud eu recordiad eu hunain trwy wasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol.

6.3. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod sefyllfaoedd lle gellir neu na ellir recordio darlith neu ran ohono.

6.3.1. Ymhlith y rhain mae: efallai nad yw'r dulliau addysgu yn addas ar gyfer recordio, fel y rheiny sydd â lefel uchel o ryngweithio;

6.3.2. ni ddylai darlithydd newid eu dull addysgu i hwyluso recordio darlith lle byddai'r newid hwn yn niweidiol i'r profiad myfyriwr;

6.3.3. efallai bod rhesymau cyfreithiol, moesol neu breifatrwydd neu bryderon sylweddol eraill dros beidio â recordio darlith neu ran ohoni.

6.3.4. efallai bod gan ddarlithydd resymau personol sy'n ei wneud yn amhriodol i'w darlith(oedd) gan eu recordio;

6.3.5. nid yw'r gwasanaeth recordio darlith ar gael.

6.4. Mae'r darlithydd yn gyfrifol am benderfynu p'un a yw buddiannau peidio â recordio'r ddarlith neu ran ohoni yn fwy na buddiannau ei recordio. Byddant yn hysbysu'r Ddisgyblaeth berthnasol o unrhyw ddarlithoedd llawn maent yn penderfynu peidio eu recordio, ynghyd â'r rheswm. Dylent ystyried p'un a yw'r opsiynau arferol naill ai i gymryd saib yn y recordio yn ystod y ddarlith, neu i ddiffodd y recordiad fideo (lle bod gan yr ystafell gyfleuster fideo), fel arall yn caniatáu i'r recordio fynd rhagddo.

6.5. Bydd y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr yn monitro'r broses hon i hyrwyddo cysondeb ar draws y Brifysgol.

6.6. Fel arfer, bydd Athrofeydd yn hysbysu myfyrwyr pa rai o'u darlithoedd fydd yn cael eu recordio neu beidio.

6.7. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i ddarlithwyr ryddhau'r recordiadau i fyfyrwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl gorffen recordio ac ôl-brosesu'r data cysylltiedig. Fel arall, gall darlithwyr ddewis ryddhau eu recordiadau rhestredig ar unwaith neu ryddhau â llaw eu recordiadau. Mae'r oedi 2 ddiwrnod gwaith yn rhoi'r cwmpas i ddarlithydd (neu Arweinydd Modwl, lle cyflwynir y ddarlith gan fyfyriwr neu ddarlithydd gwadd) i ohirio amser bwriedig rhyddhau darlith lle maent yn credu bod rheswm dros wneud hynny, er enghraifft lle bod raid lle neu lle bo eisiau adolygu neu olygu recordiad cyn ei ryddhau.

6.8. Fel arfer bydd myfyrwyr yn cyrchu recordiadau video drwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol neu Microsoft Teams.

## 7. Hygyrchedd

7.1. Ni chaiff recordiadau dorri deddfwriaeth cydraddoldeb.

7.2. Mae'r Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysterau Symudol) (Rhif 2) 2018 yn adeiladu ar y goblygiad presennol i bobl sydd ag anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gosod cyfrifoldeb ar y Brifysgol i wneud addasiadau rhesymol i'w gwasanaethau. Mae recordiadau darlithoedd eu hunain yn cynrychioli darpariaeth o adnoddau addysgu mewn fformat amgen. Mae'r Rheoliadau Hygyrchedd yn gofyn, o 23ain Medi 2020, bod rhaid i'r holl 'gyfryngau seiliedig ar amser' (fideo a sain) naill ai ddarparu adysgrif neu benawdau neu'r ddau (fideo'n unig).

7.3. Bydd y Brifysgol yn darparu canllaw clir, hygyrch ar sut i gyrchu recordiadau trwy ADRh neu Microsoft Teams.

## 8. Cyfranogion a hawliau Prifysgol

8.1. Drwy ddefnyddio'r gwasanaeth recordio darlithoedd, mae staff, myfyrwyr, darlithwyr gwadd a chyfranogion eraill yn caniatáu i'r Brifysgol eu recordio ac yn cytuno i roi i'r Brifysgol y trwyddedau angenrheidiol i ddefnyddio'r recordiadau at y diben hanfodol yn y polisi hwn.

8.2. Lle bo'r Brifysgol a gweithiwr wedi cytuno bod y gweithiwr yn cadw'r hawliau eiddo deallusol neu ran ohonynt i ddeunydd a ddefnyddir mewn recordiad fideo, mae'r gweithiwr yn cytuno i roi i'r Brifysgol drwydded anghyfyngedig i ddefnyddio'r deunydd at ddibenion hanfodol y polisi hwn.

8.3. Mewn sesiynau ar-lein, lle bod pryderon ynghylch preifatrwydd, awgryma'r Brifysgol bod cyfranogion yn pylu'r cefndir tu ôl iddynt; yn defnyddio hidlydd cefndir addas; neu os oes eisiau, yn diffodd eu camera.

8.4. Mae hawliau perfformiwr gyda'r darlithydd a chyfranogion eraill darlithoedd, sy'n cytuno i recordio'r ddarlith ac yn cytuno y caiff y brifysgol ddefnyddio eu perfformiad at ddibenion hanfodol y polisi hwn. Dylai darlithwyr sy'n dymuno defnyddio eu hawl i gael eu hadnabod yn awdur neu'n berfformiwr wneud hynny'n rhan o'r recordiad, er enghraifft ar sleid ragarweiniol.[1]

8.5. Lle bo myfyriwr (naill ai fel darlithydd neu gyfranogwr) yn berchen ar yr hawliau eiddo deallusol neu ran ohonynt i'r deunydd a ddefnyddir mewn recordiad darlith, mae'r myfyriwr yn cytuno i roi i'r Brifysgol drwydded anghyfyngedig i ddefnyddio'r deunydd at ddibenion hanfodol y polisi hwn. Mae'r myfyriwr hefyd yn cytuno i roi trwydded anghyfyngedig i'r Brifysgol ailddefnyddio'r deunydd gan y darlithydd o fewn adnodd addysgol neu ddatblygiad staff y darlithydd ei hun, marchnata ac i ailddefnyddio'r deunydd gan yr Athrofa o fewn cwmpas cynllun parhad busnes.

8.6. Mae'n ofynnol i fyfyriwr gael ei recordio os yw'r recordiad yn rhan orfodol o'u hasesiad. Dylai myfyrwyr nad ydynt yn dymuno cael eu recordio eistedd, lle bo'n bosibl, i ffwrdd o feicroffonau a thu hwnt i olwg unrhyw gamera sydd wedi'i osod neu

[1] Mae'r dull hwn o fynnu hawliau'n fesur dros dro wrth i'r Brifysgol ymchwilio i p'un a fyddai'n bosibl symud tuag at rhagosodiad o adnabod y darlithydd yn awtomatig.

ddiffodd eu camera o fewn amgylchedd ar-lein, er y bydd rhaid iddynt gadarnhau pwy ydyn nhw.

8.7. Mae darlithwyr gwadd allanol (neu eu cyflogwr, fel y bo'n briodol) yn cadw hawlfraint ar waith ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill a gynhyrchir ganddynt, drwy dderbyn telerau'r cytundeb darlithydd gwadd allanol ar recordio darlithoedd, yn cytuno i roi trwydded anghyfyngedig i'r Brifysgol i ddefnyddio'r recordiad at ddibenion hanfodol y polisi hwn.

8.8. I ganiatáu am recordio deunydd ymlaen llaw, bydd y Brifysgol yn ceisio darparu mannau addas ar gyfer recordio.

## 9. Hawlfraint trydydd parti

9.1. Rhaid i staff, myfyrwyr a darlithwyr gwadd sy'n cyflwyno deunydd mewn recordiad sicrhau nad ydynt yn torri hawlfraint trydydd parti.

9.2. Gall y defnydd o ddeunydd trydydd parti ddisgyn o fewn yr eithriad "masnachu teg" os caiff ei ddefnyddio at ddibenion eglurhaol wrth hyfforddi yn unig.

9.3. Er gwaethaf 9.2 uchod, lle bod darlith yn cynnwys darllediad neu ddeunydd arall o dan drwydded nad yw'n caniatáu'n glir y ceir copïo'r deunydd hwnnw ymhellach, bydd y darlithydd yn rhoi'r gorau i recordio darlith wrth ddefnyddio'r deunydd trwyddedig ac yna, a lle bo'n briodol, dylid rhoi mynediad ar wahân i fyfyrwyr at y deunydd trwyddedig (er enghraifft, rhoi dolen iddo o'r amgylchedd dysgu rhithwir).

9.4. Bydd y Brifysgol yn darparu ffynonellau cyngor i ddarlithwyr sydd â chwestiynau am dorri hawlfraint posibl, yn cynnwys Hwb Hawlfraint Y Drindod.

9.5. Rhaid i ddarlithwyr ddarparu dyfyniadau gweladwy ar sleidiau ac ar gyfer recordiadau a ddefnyddir o fewn darlithoedd sy'n cael eu recordio.

9.6. Gall unrhyw barti sy'n credu bod eu hawliau wedi'u torri gan neu mewn recordiad gysylltu â'r Perchennog Gwasanaeth recordio darlithoedd a fydd fel arfer yn tynnu'r recordiad i lawr wrth i ymchwiliad i'r drosedd honedig gael ei gynnal.

## 10. Diogelwch a chadw recordiadau

10.1. Bydd y Brifysgol neu ei phartneriaid meddalwedd yn cadw'n ddiogel cyfryngau sy'n cael eu cipio a'u cyflwyno gan y gwasanaeth recordio darlithoedd (Microsoft Teams a Panopto).

10.2. Bydd angen i'r recordiadau gael eu ddileu â llaw gan y darlithydd dan sylw.

10.3. Caiff data ei gadw o fewn yr UE[2] a rhaid i'r trefniadau amddiffyn data a diogelu data fodloni Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

---

[2] Gall partner meddalwedd y Brifysgol weithredu model cymorth 24 awr, ac os hynny rhaid i'r DPO fod yn fodlon gyda'r trefniadau amddiffyn a diogelu data a fydd yn galluogi i'r partner meddalwedd gefnogi staff wedi'u lleoli tu allan i'r EEA i gyrchu'r data sydd ei angen i ddarparu'r cymorth hwn. Mae Microsoft yn bwriadu ail-leoli data ffrydio data i'r DU yn unol â Brexit.

10.4. Os caiff trwydded ar gyfer deunydd a ddefnyddir o fewn recordiad yn cyfyngu ar y Brifysgol i gadw'r deunydd hwnnw am lai na chyfnod o 18 mis, mae'n rhaid i'r darlithydd drefnu i'r deunydd gael ei ddileu ar ddiwedd y cyfnod a nodir yn y drwydded. Fel arall, gall darlithwyr ddileu eu recordiadau'n gynt na'r cyfnod 18 mis arferol gyda chaniatâd eu Pennaeth Athrofa neu enwebai.

10.5. Os bydd cyflogaeth darlithydd gyda'r Brifysgol yn dod i ben, bydd y Brifysgol yn cadw eu recordiadau am y cyfnod cadw 18 mis arferol oni bai bod y darlithydd yn trefnu i ddileu neu drosglwyddo'r deunydd yn unol â pharagraffau 10.2-3 uchod. Dylai cyn-ddarlithydd sy'n dymuno defnyddio recordiad o ddarlith gysylltu â'r Athrofa sy'n gyfrifol am y modwl.

10.6. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i archwilio recordiadau yng nghyd-destun gweithredu a rheoli'r gwasanaeth a gall y Brifysgol ddileu recordiad amhriodol yn gynt na'r cyfnod 18 mis arferol.

10.7. Pan fydd un o ddarlithwyr y Brifysgol yn dileu recordiad cyn diwedd y Modwl y mae'r ddarlith yn perthyn (yn cynnwys arholiad ailsefyll lle bo'n berthnasol), dylent hysbysu'r myfyrwyr sydd ar y modwl a'r cyfranogion eraill yn y recordiad.

## 11. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

https://www.ydds.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/2.0-Staff-Intellectual-Property-Policy.pdf

## Awdur(on) y polisi:

**Kyle Erickson……………………….Teitl Swydd…Cyfarwyddwr Profiad Academaidd.**

**…………………………………………………………………….Teitl Swydd..................**

## Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Creu Polisi | KE | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Statws cyfredol y Polisi: ~~drafft /~~ wedi'i gymeradwyo*

Ydy'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: ~~AB /~~ AU / ~~AB ac AU~~*

Dyddiad cadarnhau: 22/07/2021**

Effeithiol o: 01/10/2021**

Dyddiad adolygu'r polisi: 01/05/2023**

I'w gyhoeddi: ar wefan Y Drindod Dewi Sant ~~/ MyDay / Ddim i'w gyhoeddi~~.

*Dileer fel y bo'n briodol
** ychwaneger pan fydd ar gael

---

***Cymeradwyo***

*Caiff y polisi ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn unol â'r Cylch Gorchwyl Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghoriad yn JCC. Hefyd, bydd AD yn darparu cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid i'r canlynol fod ynghlwm wrth BOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.*
- *Asesiad o'r Effaith Cyfundrefnol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd*

*Cyn ei gyflwyno i bwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio yn cwblhau'r adran isod.*

---

***I'w gwblhau gan y Tîm Polisi a Chynllunio***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Cyfundrefnol wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau* ☒

*A Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi'i gwblhau* ☒

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:*

---